Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl363

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Ymchwydd cyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau Dyfed**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r gyllideb a ddarperir i wasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 2 a gomisiynir gan Fwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda wedi bod yn sefydlog ers 2015. Mae ymarfer caffael diweddar i ail-gomisiynu'r gwasanaeth wedi profi'n aflwyddiannus. Mae trafodaethau pellach wedi tynnu sylw at bryderon sylfaenol gyda'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth hwn, gyda'r darparwr yn rhedeg y gwasanaeth ar golled dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn dilyn yr ymarfer caffael aflwyddiannus, mae Gweithrediaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynnig estyn y cytundeb presennol am gyfnod o 23 mis, gan ddwyn y dyddiad olaf i 31 Mawrth 2027. Yn ystod yr amser hwn, bydd adolygiad llawn o fanyleb, cyllideb a gofynion y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan y tîm Bwrdd Cynllunio Ardal a phartneriaid. Er mwyn hwyluso'r estyniad hwn, mae Gweithrediaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal wedi ystyried cynnig ar gyfer ymgodi'r gyllideb bresennol am y cyfnod 23 mis. Mae'r ymchwydd gofynnol a nodwyd gan y darparwr, yn seiliedig ar y diffyg presennol a chynnydd megis YG yn cyfateb i 19.8% o'r gyllideb cyfiawnder troseddol a ddarperir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.

Mae'r gyllideb arfaethedig gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed wedi'i hadolygu gan y Cyfarwyddwr Comisiynu a'r Prif Swyddog Cyllid, gydag ymholiadau wedi'u codi drwy'r tîm Bwrdd Cynllunio Ardal. Mae arweinwyr cyllid a pherfformiad y Bwrdd Cynllunio Ardal wedi cwrdd ag uwch arweinwyr Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed er mwyn craffu ar y cynigion cyllideb a'u deall, gyda chrynodebau ychwanegol wedi'u darparu.

Mae ymchwil ar draws ein rhwydweithiau'n dweud wrthym fod nifer o swyddfeydd CTh wedi rhoi dyfarniad ymchwydd yn y blynyddoedd diwethaf i wasanaethau a gomisiynir i gydnabod pwysau o ran chwyddiant a chostau byw.

Yn ddiweddar, ail-gomisiynodd CHTh nifer o wasanaethau, gyda chostau chwyddiannol yn cael eu hystyried o fewn cyfrifon cyllideb diwygiedig. Gan hynny, mae'r cynigion isod yn gyson â thriniaeth gwasanaethau eraill. Mae'n bwysig nodi hefyd nad oedd gwasanaethau atal ac ymyrraeth troseddwyr yn gymwys ar gyfer y cyllid ychwanegol sydd ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn yr un ffordd â gwasanaethau dioddefwyr, lle mae darparwyr wedi llwyddo i ategu'r costau cynnal cynyddol ers y pandemig COVID-19.

Cynigir uchafswm cynnydd o 15% ar y buddsoddiad gan wasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae hyn gyfystyr â £66,882 ar gyfer y cyfnod 11 mis o 2025/26 (daw'r cytundeb presennol i ben ar 30 Ebrill 2025) ac £16,018 arall ar gyfer 2026/27. Byddai'r arian hwn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, gan arwain at gynnydd o £33,441 ar gyfer cyllidebau CHTh yn 2025/26 ac £8,009 pellach yn 2026/27. Byddai hyn yn dwyn cyfanswm buddsoddiad CHTh i £256,890. Cynigir bod Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn anfonebu ar y costau gwirioneddol a bod y gyllideb yn parhau i gael ei hadolygu fel bod y ddau barti'n medru ymateb yn hyblyg i unrhyw risgiau neu faterion a ddaw i'r amlwg yn ystod gweddill y cytundeb.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Argymhelliad:**

Bod CHTh yn cymeradwyo uchafswm cynnydd o 15% ar gyfer cytundeb Haen 2 camddefnyddio sylweddau Dyfed, sydd gyfystyr ag ymchwydd yn 2025/26 o £33,441 ac £8,009 pellach yn 2026/27. Bod y gwasanaeth yn cael ei anfonebu ar gostau gwirioneddol, gyda'r gyllideb yn cael ei hadolygu bob chwarter.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 20/03/2025**